**Pwyllgor Rhanbarth Canolbarth Cymru MID 03-01(p.1b)**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 13 Gorffennaf 2001

**Amser:** 10.30am tan 1.00pm

**Lleoliad:** Neuadd Gymunedol, Llanidloes

## PWYLLGOR RHANBARTH CANOLBARTH CYMRU

### Blaen-raglen Waith hyd at ddiwedd 2001

Bydd gan y Pwyllgor ddau gyfarfod yn ystod tymor yr Hydref. Y trefniant ar hyn o bryd yw i un prif bwnc gael ei drafod ym mhob cyfarfod: Strategaeth ar gyfer Pobl Oedrannus yng Nghymru ym mis Tachwedd ac adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o’r Iaith Gymraeg ym mis Rhagfyr.

Gweler isod amlinelliad o’r ddau gyfarfod:

2 Tachwedd 2001 Lleoliad: Aberporth neu Geinewydd

Testun: Strategaeth ar gyfer Pobl Oedrannus

7 Rhagfyr 2001 Lleoliad: Theatr Brycheiniog, Aberhonddu

Testun: Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o’r Iaith Gymraeg

Gwahoddir awgrymiadau pellach gan yr Aelodau o bynciau i’w trafod (yng nghyfarfodydd tymor y Gwanwyn). Gofynnir hefyd iddynt ystyried a ddylid newid fformat sesiwn y "cyflwyniadau cyhoeddus" i fod yn sesiwn cyffredinol "meicroffôn agored" yn unol â threfn pwyllgorau rhanbarth eraill.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Gorffennaf 2001**